Fforwm Rhanbarthol y Canolbarth

30 Medi 2019

Y Talbot, Tregaron, Ceredigion

10.00am - 1.00pm

Yn bresennol:

Enw		Cynrychioli
Steve Hughson (Cadeirydd)	SH	Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru
Wendy Abel	WA	Rhwydwaith Twristiaeth Canolbarth a Gogledd Powys
Val Hawkins	VH	Twristiaeth Canolbarth Cymru
Rowland Rees-Evans	RRE	Twristiaeth Canolbarth Cymru
Anthony Rosser	AR	Cadeirydd BHA Cymru / Llyn Efyrnwy
Aled Davies	AD	Cyfoeth Naturiol Cymru
Richard Tyler	RT	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Ann Eleri Thomas	AET	Cyngor Sir Ceredigion / Partneriaeth Rheoli Cyrchfannau Ceredigion
Dafydd Wyn Morgan	DwM	Menter Mynyddoedd Cambrian
Bev Dimmock	BD	RSPB
Rhodri Arnold	RhA	WATO
Mike Booth	MB	Dŵr Cymru
Julie Lewis	JL	Cyngor Sir Powys
Gareth Price	GP	Twristiaeth Ceredigion
Rhodri Llwyd Morgan	RhLlM	Prifysgol Aberystwyth
Rebecca Wilson	RW	Trafnidiaeth Cymru
Dylan Roberts	DR	Salop Leisure
Rob Bullen	RB	Biosffer Dyfi
		Llywodraeth Cymru
Gerwyn Evans	GE	Pennaeth Datblygu Twristiaeth, Croeso Cymru
Gwawr Price	GP/WWM	Rheolwr Ffordd Cymru, Croeso Cymru
Helen Jones	HJ/REM	Rheolwr Ymgysylltu Rhanbarthol, Croeso Cymru
Lucy Von Weber	LVW	Pennaeth Marchnata, Croeso Cymru
Kate Clark	KC	Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi ac Ymgysylltu, Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon
Alan Samuel	AS	Cynorthwyydd Ymgysylltu Rhanbarthol, Croeso Cymru

Ymddiheuriadau

Rob Holt	RH	Dirprwy Gyfarwyddwr, Datblygu Twristiaeth a Digwyddiadau Mawr, Croeso Cymru
Peter Francombe	PF	Rheolwr Cefnogi'r Diwydiant Twristiaeth, Croeso Cymru
Paul Donovan	PD	WATO
Claire Williams	CW	Partneriaeth Rheilffordd Cambria
Justin Beard Murray	JBM	Metropole Hotel
Aled Rees	AR	Twristiaeth Ceredigion/Cambria Tours
Llion Pughe	LlP	Y Gorau o Gymru
Arwyn Watkins OBE	AW	Cwmni Hyfforddi Cambrian
Greg Thomas	GT	Cyngor Sir Powys

Cofnodion:

Croeso a sylwadau agoriadol – Steve Hughson Croesawodd SH bawb i'r Fforwm gan nodi'r nifer cadarnhaol oedd yn bresennol. Gan gyfeirio at ei daith i'r Fforwm, soniodd SH am brydferthwch yr Elenydd a sut dylai'r lefel isel o lygryddion gael ei defnyddio fel cyfle marchnata, gan gysylltu â'r agenda Llesiant. Ychwanegodd SH fod pedwar Cadeirydd Fforwm Rhanbarthol wedi mynychu'r Bwrdd Rheoli Twristiaeth, ynghyd â'r Diprwy Weinidog. Roedd y Cynllun Gweithredu drafft wedi cael croeso. Yn ystod trafodaethau Brexit, tynnwyd sylw at yr heriau a'r cyfleoedd e.e gwyliau gartref ynghyd â'r her o ostyngiad posib mewn incwm gwario ymwelwyr. Diolchodd SH i VH a phawb yn Nhwristiaeth Canolbarth Cymru cyn ei diweddariad am y gwobrau twristiaeth. Nododd SH yr holl waith caled i sefydlu'r gwobrau hyn, gan ddiolch i bawb am eu gwaith, gan gynnwys aelodau'r fforwm oedd yn rhan o'r panel beirniadu. Mynegodd SH bryderon fod Bargen Twf y Canolbarth fel petai'n colli'i momentwm a bod angen i'r Fforwm ymwneud â datblygiadau er mwyn bachu ar bob cyfle i'r sector. Bydd cyfarfod nesaf Bargen Twf y Canolbarth yn cael ei gynnal ar 18 Hydref a byddai'n trafod y mater bryd hynny. **Cam gweithredu: sicrhau bod Bargen Twf y Canolbarth yn rhan o'r agenda nesaf.**	**HJ**

Estynnodd SH groeso i AS a diolch i Croeso Cymru am y cymorth gweinyddol. Hefyd, croesawodd RT yn ôl i'r Fforwm a chydymdeimlodd â Greg Thomas yn dilyn profedigaeth deuluol.	
Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf / Diweddariadau Rhanbarthol - Steve Hughson Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cymeradwyo gan DR a'u heilio gan RRE. *Camau gweithredu ers y cyfarfod diwethaf:* Cynigiodd SH gyfle i'r aelodau wneud sylwadau ar y Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno ym mis Gorffennaf (ni chafwyd sylwadau). Hefyd, pwysleisiodd mai dogfen waith fyddai hon, ac y gallai gael ei diweddaru fel bo'r angen. Pwysleisiodd SH bwysigrwydd cynigion prosiect sylweddol, fel Camlas y Trallwng a Harbwr Ceredigion. Er bod cyfyngiadau amser wedi atal cyflwyniadau y tro hwn, byddai croeso iddynt i ddod i gyfarfod yn y dyfodol. Estynnodd HJ wahoddiad i'r holl aelodau ofyn cwestiynau am brosiectau wedi'u hariannu gan RTEF a TPIF gan esbonio bod cyfarfod wedi'i drefnu i arweinwyr prosiect ar ôl y Fforwm; er mwyn helpu gyda chydweithredu a gwaith partneriaeth. Diolchodd SH i VH am gytuno i gynrychioli'r Canolbarth ar y Bartneriaeth Sgiliau Dysgu Rhanbarthol (RLSP) gan edrych ymlaen at ei diweddariadau am hyn yng nghyfarfodydd y Fforwm yn y dyfodol. *Diweddariadau Rhanbarthol* Diolchodd SH i'r aelodau hynny am roi diweddariadau cyn y cyfarfod, gan bwysleisio eu bod yn elfennau allweddol yn y broses gyfathrebu rhwng Croeso Cymru a'r diwydiant. Gan ategu eu pwysigrwydd, gofynnwyd i'r aelodau a hoffent wneud unrhyw newidiadau i'r broses ddiweddariadau. Roedd pawb yn cytuno fod y system gyfredol yn addas. Unwaith eto, gofynnodd SH iddyn nhw gyflwyno'r wybodaeth hon mewn da bryd, yn ôl y gofyn. Hefyd, atgoffwyd yr aelodau i gofrestru ar-lein i dderbyn cylchlythyr Croeso Cymru ac annog eu rhwydweithiau i wneud yr un fath er mwyn cael y manylion diweddaraf am ddatblygiadau a gwybodaeth allweddol: https://businesswales.gov.wales/tourism/tourism-newsletterbulletin	

Cam gweithredu: Gwahodd y Grŵp Morol i'r cyfarfod nesaf i roi cyflwyniad ar Brosiect Harbwr Ceredigion Er bod cyfyngiadau amser yn atal fel hyn arfer, estynnodd SH wahoddiad i'r holl aelodau nodi eu prif gyflawniadau y tro hwn: <u>*Uchafbwyntiau llafar*</u> *DS. Dim ond cyflwyniadau hwyr sydd isod; cafodd adroddiadau a gyflwynwyd ymlaen llaw eu dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod.* Esboniodd AR fod UK Hospitality Cymru wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru i godi sgiliau ac addysg yn y diwydiant ymwelwyr. Cadarnhawyd bod partneriaeth hyfforddiant diwydiant twristiaeth a lletygarwch Cymru bellach wedi'i chreu, gyda Croeso Cymru'n gyfrifol am yr ysgrifenyddiaeth. Gofynnodd RRE sut mae hyn yn gweithio gan fod addysg wedi'i datganoli. Er mai Croeso Cymru sy'n darparu'r gwaith ysgrifenyddiaeth, dywedodd AR fod y bartneriaeth yn cael ei hystyried yn un sy'n cael ei harwain gan y diwydiant gyda chyfraniad uniongyrchol at agenda San Steffan. Tynnodd SH sylw at broblemau recriwtio a chadw yn y Gymru wledig. Cyflwynodd AR ddiweddariad prosiect am y £7m arfaethedig i'w fuddsoddi yn ardal Llyn Efyrnwy. Mae partneriaeth rhwng yr RSPB a chwmni Hafren Trent yn datblygu prosiect o bwys (sydd bellach hanner ffordd drwy'r ail gam). Bydd yn cynnwys canolfan newydd i ymwelwyr, trefniadau rheoli traffig, dulliau dehongli a menter i ddatblygu Llyn Efyrnwy cynaliadwy. Bydd canolfan hyfforddi'n cael ei hadeiladu, a allai helpu i hyfforddi ffermwyr mynydd i archwilio eu modelau busnes. Cyhoeddodd RhLlM brosiect sylweddol i weddnewid adeilad yr Hen Goleg Prifysgol Aberystwyth. Byddwn yn gwybod canlyniad cais am arian o Gronfa Dreftadaeth y Loteri erbyn Nadolig 2019. Cyflwynodd RW ei rôl fel Rheolwr Marchnata Partneriaethau gyda Trafnidiaeth Cymru. Croesawodd SH Rebecca i'r grŵp. Hefyd, cyhoeddodd RT gais am arian sylweddol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn ne'r Bannau. Mae'r prosiect hwn yn ymestyn fwy tuag at ardaloedd y Cymoedd, ac yn canolbwyntio ar Fro'r Sgydau. Soniodd RB am gyfarfod diweddar Biosffer Dyfi gyda'r Prif Weinidog ynghylch cyllid craidd. Parhaodd Rob i gyhoeddi cyllid £1 miliwn y Ganolfan Dechnoleg Amgen er mwyn gwella'r Labordy Arloesi a'r Ganolfan Ymwelwyr di-garbon.	**HJ**

Cyhoeddodd MB ei rôl newydd fel Rheolwr Atyniadau Cwm Elan; gan bwysleisio'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar brosiect 'Elan Links' Cronfa Dreftadaeth y Loteri gan gynnwys prynu planetariwm dros dro. Ymddiheurodd VH am gyflwyno ei hadroddiad diweddariad yn hwyr. Siaradodd am brosiect 'Real Mid Wales' a'i gwerthfawrogiad o gyllid Croeso Cymru. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar y farchnad gwyliau gartref o fewn amser teithio dwy awr. Hefyd, mae VH yn ymroi i ennyn diddordeb busnesau er mwyn gwella eu gwybodaeth ar wefan Croeso Cymru. Ymddiheurodd GP am beidio cyflwyno diweddariad. Ychwanegodd, fel Is-gadeirydd Grŵp Arloesi Cynnyrch, fod prosiectau cydweithredol dan ystyriaeth. **Cam gweithredu – anfon yr holl ddiweddariadau (gan gynnwys rhai hwyr) at yr aelodau** **Cam gweithredu– aelodau i gyflwyno diweddariadau cyn y cyfarfod nesaf**	**AS** **POB AELOD**
Diweddariad Llywodraeth Cymru – Gerwyn Evans Esboniodd GE mai'r Cynllun Gweithredu drafft yw pwyslais y cyfarfod heddiw, a gofynnodd i'r Cadeirydd am amser i ganolbwyntio ar hyn. Hysbysodd yr aelodau am gyfleoedd cyllid, gan dynnu sylw at allu Croeso Cymru i gael nawdd er budd yr economi wledig. • Mae'r Gronfa Busnesau Micro a Bychan (MSBF) wedi ailagor • Ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd • Cynllun Cymru gyfan • Ar gael i fusnesau bach a meicro newydd a rhai sy'n bodoli'n barod (sy'n cyflogi llai na 50 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn) • Ar agor i'r trydydd sector • Hyd at 40% o gymorth (nad oes angen ei ad-dalu) • O leiaf £25,000 o gymorth – ond gall fod yn is dan amgylchiadau eithriadol • Tua £10,000 o gyllid fesul swydd cyfwerth ag amser llawn – ond gall fod yn uwch na hynny dan amgylchiadau eithriadol • Gellir cyflwyno ceisiadau gydol y flwyddyn • Mae cronfa newydd, Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru (WTIF) bellach ar gael • Cronfa gwerth £50 miliwn • Partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru • Cyfuno cyllid masnachol (80%) ac arian grant (20%) mewn un pecyn • Rhwng £100,000 a £5,000,000 o gyfalaf i fusnesau twristiaeth	

• Cyfnod ad-dalu rhwng 10 a 15 mlynedd, a gall gynnwys seibiant talu tymhorol. Rhagor o wybodaeth: https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/cyllid	
Datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer yr Economi Ymwelwyr – Gerwyn Evans / Kate Clark Mae'r Cynllun Gweithredu drafft yn disgwyl am gymeradwyaeth Gweinidogol nawr. Fe'i disgrifiwyd fel cynllun uchelgeisiol gan GE, a gofynnodd am syniadau gan aelodau'r Fforwm. Mae'r 'cynllun ar dudalen' yn crisialu dogfen hirach 30 tudalen. Roedd RRE yn teimlo ei bod hi'n bwysig cryfhau negeseuon ansawdd brandio. Yn fwy na dim, pwysleisiodd KC y ffaith fod y cynllun yn cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Ychwanegodd GE fod y cynllun hefyd yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cyfeirio at yr argyfwng newid hinsawdd o ran cydbwyso'r cynnig i ymwelwyr. Cyfeiriodd GE at y 386 o ymatebion i'r deg cwestiwn – atebion amrywiol sy'n adlewyrchu natur amrywiol y diwydiant. Dywedodd KC fod cynaliadwyedd yn bwnc cyffredin yn yr holl ymatebion. Diolchodd SH i'r aelodau am ymateb, ac roedd yn falch o weld mai rhanbarth y Canolbarth oedd y grŵp mwyaf ond un wnaeth ymateb. Cyfeiriodd GE at ddulliau gweithredu "Bro" (rhanbarthol/cenedlaethol) a "Byd" (rhyngwladol) ac at lwyddiannau ymgysylltu cyfredol yng nghystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd yn Siapan. Holodd AR am ffigurau ymwelwyr tramor mewn perthynas â'r gwariant marchnata. Dywedodd LVW fod 10% (10 miliwn) o ymwelwyr tramor â Chymru yn cynnwys gwariant marchnata o rhwng £1.5 miliwn i £2 filiwn. Hefyd, dywedodd LVW fod £3-5 miliwn wedi'i wario ar farchnata cartref; ac er bod ymwelwyr sy'n dychwelyd yn bwysig, mae'n bwysig parhau i ddenu ymwelwyr newydd. Nododd GE y bydd y cynllun marchnata rhyngwladol yn cael ei ddiwygio i ganolbwyntio ar farchnadoedd Ewropeaidd agos, ond y bydd yn parhau'n hyblyg. Ychwanegodd LVW fod marchnadoedd tramor yn cael eu dewis a'u dethol ar sail cyfleoedd mynediad a pha mor gost-effeithiol ydyn nhw. Cafwyd trafodaeth ar farchnata mewn meysydd awyr a gorsafoedd trenau wedyn. Gofynnodd AR a oes unrhyw fwriad i farchnata mewn meysydd awyr rhyngwladol yn Lloegr (Lerpwl, Manceinion ac ati).	

Sicrhaodd LVE fod y strategaeth newydd yn dangos ymrwymiad i farchnata rhyngwladol. Cyhoeddodd LVE y bydd yr ymgyrchoedd 'blwyddyn' thematig yn newid i gylch dwy flynedd fel bod gan fusnesau fwy o amser i gynllunio eu hymgyrchoedd. Roedd GE yn cydnabod bod angen cynnwys busnesau bwyd a llety'n fwy effeithiol y cynigion 'blwyddyn'. Cyfeiriodd GE ar gynnwys 'Ffordd Cymru' yn y cynllun. Gofynnodd SH a fydd unrhyw gyfeiriad at ffyrdd lleol, e.e ffordd neu lwybr Glyndŵr. Esboniodd GP mai nod cysyniad Ffordd Cymru yw annog ymwelwyr i igam ogamu oddi ar y prif lonydd. Gofynnodd SH a oes mwy o botensial i archwilio hanes Cymru a digwyddiadau cerdd a diwylliant y wlad. Esboniodd KC fod y cynllun yn cynnwys treftadaeth, a bod hyn yn hollbwysig i'n cynnig ni. Trafodwyd gwerth o gymharu â maint; esboniodd GE fod angen gwella gwariant a dosbarthiad arian yn enwedig yn y cynfod teithio rhwng tymhorau prysur a thymhorau tawel. Mae'n bwysig denu'r math cywir o gwsmer. Roedd GE yn cydnabod yr heriau i'w hwynebu yn ystod Brexit, ond hefyd y cyfleoedd; gyda chryn bwyslais ar dargedu ymwelwyr newydd a gwyliau gartref. Dywedodd KC fod gwledydd a rhanbarthau eraill y DG hefyd yn paratoi at y marchnadoedd hyn, sy'n cynyddu'r gystadleuaeth. Mynegodd AR ei bryderon fod AirBnB yn amharu ar y farchnad. Cytunodd GE, gan ychwanegu nad oes modd anwybyddu'r cwmni. Er bod rhywfaint o fanteision i fodel AirBnB, dywedodd SH fod yr elfen heb ei reoleiddio yn golygu mantais annheg o ran busnes. Eiliwyd hyn gan RRE. Holodd RT am fodel 'gwerth o gymharu â maint'. Esboniodd LVW mai arferion ymwelwyr sy'n llywio'r cynllun hwn, a'r gwariant tebygol fesul ymwelydd mewn amrywiaeth o gyrchfannau Cymreig (tymor, dosbarthiad a gwariant). Awgrymodd DR fod angen cyfleusterau ac amwynderau priodol, e.e. maes parcio, er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r mater. Cyhoeddodd GE gynlluniau buddsoddi tebyg i fodel 'Parador' Sbaen – targedu adeiladau treftadaeth mewn ardaloedd priodol. Dywedodd RRE fod y model hwn yn dibynnu ar y glo mân ond ei fod yn gynllun cadarnhaol ar y cyfan (sbarduno gwelliannau i gynigion yr ardal yn gyffredinol). Soniodd AR am Clevedon fel enghraifft o gynllun llwyddiannus yn Lloegr. Ychwanegodd GE gynllun buddsoddi pellach i ddatblygu canolfan celfyddydau gyfoes ar ddull "prif ganolfan a lloerennau". Cyflwynodd GE y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru. Mae'r ddau gytundeb newydd	

cyntaf wedi dechrau, a fydd yn helpu i godi proffil ac enw da Cymru. Hefyd, soniodd GE am ddull newydd posib o fuddsoddiad cyfalaf a datblygiad – gan ganolbwyntio ar un rhan o Gymru ar y tro, a gwella'r ardal yn gyfannol. Holodd SH a fydd y pedwar rhanbarth yn gallu gwneud hyn – cadarnhaodd GE hyn. Aeth GE ymlaen i drafod y maes prif ddigwyddiadau i'w ailenwi'n "Digwyddiadau Cymru". Mae digwyddiadau cartref yn rhan mor bwysig o'r ffocws ar ddigwyddiadau gan fod y gystadleuaeth ryngwladol yn ffyrnig a chostus. Ychwanegodd SH fod hybu a hyrwyddo'r digwyddiadau hyn cyn bwysiced â denu partneriaid er mwyn ychwanegu gwerth. Dywedodd RT fod digwyddiadau bach hefyd yn bwysig gan eu bod nhw'n real ac yn rhoi adlewyrchiad cywir. Soniodd GE am bwysigrwydd cyfleusterau lleol a sicrhau cyllid er mwyn helpu i'w datblygu. Rhoddodd enghraifft o gyfleusterau arloesol 'Changing Places'. Ychwanegodd SH fod Cymdeithas y Sioe Frenhinol yn bwriadu gwario £350,000 ar wella'r cyfleusterau tai bach a chawodydd. Gofynnodd RhA sut fydd y cyfleusterau hyn yn cael eu gweithredu a'u cynnal a chadw. Esboniodd GE y dylai ceisiadau gynnwys darpariaethau cynaliadwyedd. Rhannwyd y posibilrwydd o ddileu taliadau graddio gan GE. Mae Cymru'n profi dirywiad cyson mewn eiddo wedi'u graddio. Roedd VH yn teimlo fod y system raddio yn bwysig ac nad yw'n dibynnu ar bris. Awgrymodd DR y dylai bod cysylltiad cryf rhwng y meini prawf a rheoleiddio; byddai hyn yn dangos y gwahaniaeth mewn buddsoddi o gymharu â llety heb ei reoleiddio. Roedd AR o'r farn bod graddio yn hollbwysig – mae llawer yn ymweld â Chymru i ymlacio, ac y byddai cael gwared ar raddio yn arwain at ganfyddiad o ansawdd is. Trafododd GE strategaeth y Cynllun Gweithredu, gan nodi'r wyth maes i'w ddatblygu ar sail cynnyrch; twristiaeth gynaliadwy, Llwybr Arfordir Cymru a llwybrau cenedlaethol, treftadaeth ddiwylliannol, ffilm a theledu; golffio, beicio, profiadau Cymru 100% a mordeithiau. Aethpwyd ymlaen i drafod pysgota ac ehangu beicio i gynnwys chwaraeon antur. Ategwyd hyn gan DR, gan esbonio pwysigrwydd y gweithgareddau hyn i'r Canolbarth. Apeliodd GE ar y grŵp i symud tuag at leisio barn unedig yn nhermau cysylltu â'r llywodraeth ar fater treth dwristiaeth, a bod angen statud i weithredu hyn yn effeithiol. Bydd ystadegau a gwybodaeth y farchnad Croeso Cymru yn cael eu datblygu i gynnwys arolwg blynyddol ymwelwyr a thrigolion. Nododd KC holl sylwadau'r aelodau i'w cynnwys yn y Cynllun Gweithredu cyn cael sêl bendith derfynol y Gweinidog. Gwahoddodd	

GE yr aelodau i gyflwyno sylwadau pellach cyn y cyfarfod. Fodd bynnag, bydd angen i hyn fod cyn gynted â phosib. **Cam gweithredu – unrhyw sylwadau ychwanegol i'w hanfon at HJ cgaph** Diolchodd Steven i GE a KC – esboniwyd mai cynllun y diwydiant hwn yw hwn – gan wahodd yr holl aelodau i fod yn gyfrifol amdano ac, yn bwysicach, i'w rannu â'u rhwydweithiau, gan ategu'r ffaith taw cyfathrebu yw un o brif ddibenion y Fforwm.	**HOLL AELODAU**
Diweddariad am farchnata Croeso Cymru – Lucy Von Weber Cyflwynodd LVW ddiweddariad marchnata i'r aelodau gan nodi'r bwriad i ganolbwyntio ar natur dymhorol, dosbarthiad a gwariant. Cafodd yr aelodau y manylion diweddaraf am y canlynol hefyd: • Blwyddyn yr awyr agored sy'n cychwyn ym mis Ionawr • Strategaeth hysbysebion teledu ac ar-lein • Cyswllt 'Ffordd Cymru' ag Expedia gan gynnwys meddiannu'r hafan • Hysbysebion ar sgriniau mawr mewn canolfannau trafnidiaeth • Ymgyrch gwefan Secret Escapes • Micro flwyddyn i ffwrdd (annog myfyrwyr y DU i aros yma a theithio) • Profiad caiacio AirBnB llwyddiannus • Lansio gwefan newydd Croeso Cymru ym mis Ebrill – gan bwysleisio'r chwiliadur a rhestri gwell • Cynnwys 30 eiliad ar y cyfryngau cymdeithasol • Cwm Elan, Llangrannog a Chader Idris yn perfformio'n uchel yn sgorau'r cyfryngau cymdeithasol • Ymwelwyr yn symud tuag at agweddau twristiaeth gynaliadwy • Nid yw sioe deithiol 15 Hydref wedi denu llawer o'r Canolbarth – apelio ar aelodau i gofrestru. Diolchodd SH i Lucy am waith cadarnhaol Croeso Cymru, ac anogodd pawb i archebu lle ar Sioe Deithiol Croeso Cymru a rhannu gwybodaeth am y digwyddiad i'w rhwydweithiau. **Cam gweithredu – anfon cyflwyniad i bawb** **Cam gweithredu– anfon dolen gyswllt at aelodau i archebu lle ar y Sioe Deithiol** **Cam gweithredu - aelodau i rannu dolen gyswllt y Sioe Deithiol ymhlith eu rhwydweithiau**	**AS** **HJ** **POB aelod**

Yr Eisteddfod Genedlaethol: Tregaron 2020 – Robyn Tomos Cyflwynodd Robyn Tomos ddiweddariad ar gynlluniau i gynnal Prifwyl 2020 yn Nhregaron. Mae'r digwyddiad yn cynnig cyfleoedd economaidd sylweddol i'r ardal. Mae'r Eisteddfod nid yn unig yn ŵyl wythnos o hyd, ond yn gyfle busnes am gyfnod helaethach hefyd. Dyma fanteision yr Eisteddfod: • Profiad Cymraeg unigryw, heb ei debyg. • 160,000 o ymwelwyr a 250 o stondinau masnach. • Gwariant eilaidd gwych. • 1,500 o garafanau – bydd meysydd carafanio ardal Tregaron a threfi eraill Ceredigion ar eu hennill. • Rhagweld buddsoddiad o £8 miliwn yn yr ardal. • Mae gan y digwyddiad statws a bri rhyngwladol, ac rydym yn awyddus i ddatblygu hyn. • Profiad Cymraeg cyflawn fel rhan o gynnig unigryw. • Mae'r Eisteddfod yn gadael gwaddol yn y gymuned - angen harneisio'r egni a'r brwdfrydedd a grëwyd trwy'r broses. Diolchodd SH i Robyn am ei gyflwyniad, gan gytuno fod elfen unigryw'r Eisteddfod yn bwysig i Gymru. Gofynnwyd am sylwadau'r aelodau. Mae GP eisoes yn falch o fod wedi derbyn archebion ar gyfer yr Eisteddfod, gan nodi'r her o gael digon o lety i ateb y galw. Mae RT o'r farn bod y 1,500 o garafanau o gymorth at hyn. Ychwanegodd RhLlM ei fod mewn cysylltiad rheolaidd â swyddfa'r Eisteddfod ac er bod y llety sydd ar gael yn Nhregaron yn heriol, mae trafodaethau'n cael eu cynnal am ddefnyddio cwmnïau bysiau. Byddai hyn yn cynyddu'r dewisiadau o lety ymhellach draw i ymweld ag ardaloedd y tu allan i amseroedd yr Eisteddfod. Mynegodd AR brofiad cadarnhaol o gynnal a chroesawu ymwelwyr adeg Prifwyl Meifod, ond y byddai ymwybyddiaeth well o anghenion a disgwyliadau'r ymwelwyr wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn deall ymarferoldeb y cyfan yn well a darparu profiad rhagorol. Dymunodd SH yn dda i Robyn a'r pwyllgor Eisteddfod ehangach, am Eisteddfod hynod lwyddiannus i Dregaron a'r cyffiniau yn 2020.	
Unrhyw fater arall Atgoffodd VH yr aelodau o noson gwobrau twristiaeth ar 17 Hydref yn Theatr Hafren. Daeth dros 130 o geisiadau i law, a chawsant eu hasesu gan ddefnyddio dull sgorio "busnes cyfan".	

Dymunodd SH yn dda i bawb yn y rownd derfynol, a diolchodd eto i Twristiaeth y Canolbarth am reoli'r gwobrau a'r panel beirniadu (yn cynnwys aelodau'r Fforwm) am roi o'u hamser a'u harbenigedd. Dywedodd fod llwyddiannau rhanbarth y Canolbarth yn dyst i waith caled Twristiaeth y Canolbarth a bod proses wobrwyo'r De-ddwyrain wedi gofyn iddyn nhw am gymorth gyda'u noson wobrwyo hwythau. Diolchodd SH i bawb am fynychu, a chloi trwy ofyn i'r holl aelodau rannu'r holl wybodaeth a gafwyd gyda'u rhwydweithiau a darparu unrhyw adborth i Croeso Cymru a/neu trwy adroddiadau diweddaru, cyn y cyfarfod nesaf. **Dyddiad y cyfarfod nesaf** 27 Ionawr 2020 Lake Vyrnwy Hotel **Cam gweithredu: trefnu cyflwyniad am brosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri Llyn Efyrnwy**	**HJ**